OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2014 Rhif 1186 (Cy. 115)

# IECHYD PLANHIGION, CYMRU

## Gorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2014

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) 2006 (O.S. 2006/1643 (Cy.158)) ("y prif Orchymyn").

Mae erthygl 3(1) yn gwneud darpariaeth i wahardd person rhag glanio planhigion *Ulmus* L. yng Nghymru, a fwriedir ar gyfer eu plannu, sydd wedi eu tyfu neu yr amheuir eu bod wedi eu tyfu mewn Aelod-wladwriaeth arall neu yn y Swistir, oni hysbyswyd arolygydd awdurdodedig mewn ysgrifen ymlaen llaw.

Mae erthygl 3(2) yn gwneud darpariaeth i'r hysbysiad mewn ysgrifen sy'n ofynnol o dan erthygl 19(7) o'r prif Orchymyn gynnwys enw'r wlad y mae'r planhigion wedi eu hanfon, neu i'w hanfon, ohoni.

Mae erthygl 4 yn dileu'r darpariaethau yn y prif Orchymyn ynglŷn â'r organeb *Diabrotica virgifera virgifera* Le Conte er mwyn rhoi'r canlynol ar waith—

(a) Cyfarwyddeb Gweithredu'r Comisiwn 2014/19/EU sy'n diwygio Atodiad I i Gyfarwyddeb y Cyngor 2000/29/EC ynghylch mesurau diogelu yn erbyn dod ag organebau i'r Gymuned sy'n niweidiol i blanhigion neu gynhyrchion planhigion ac yn erbyn eu lledaenu yn y Gymuned (OJ Rhif L 38, 7.2.2014, t.30); a

(b) Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn 2014/62/EU sy'n dirymu Penderfyniad 2003/766/EC ynghylch mesurau brys i atal *Diabrotica virgifera virgifera* Le Conte rhag lledaenu yn y Gymuned (OJ Rhif L 38, 7.2.2014, t.45).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar wneud Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, barnwyd

nad oedd yn angenrheidiol gwneud asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r buddion sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2014 Rhif 1186 (Cy. 115)

# IECHYD PLANHIGION, CYMRU

## Gorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2014

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *6 Mai 2014* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *8 Mai 2014* |
| *Yn dod i rym* | *31 Mai 2014* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 2 a 3(1) o Ddeddf Iechyd Planhigion 1967(**1**).

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2014.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 31 Mai 2014.

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

**Diwygio Gorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) 2006**

**2.** Mae Gorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) 2006(**2**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(**1**) 1967 p. 8. Diwygiwyd adran 1(2) gan Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Swyddogaethau) 2013/755 (Cy. 90), Atodlen 2, paragraff 43. Diwygiwyd adrannau 2(1) a 3(1) gan Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 (p. 68), Atodlen 4, paragraff 8. Rhoddir y pwerau yn adrannau 2 a 3 i "competent authority", a ddiffinnir yn adran 1(2), o ran Cymru, fel Gweinidogion Cymru.

(**2**) O.S. 2006/1643 (Cy. 158); offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 2008/2781 (Cy. 248), O.S. 2009/1376 (Cy. 137), O.S. 2013/2939 (Cy. 287) ac O.S. 2014/521 (Cy. 62).

**Erthygl 19 (gwahardd glanio plâu planhigion a deunydd perthnasol)**

**3.**—(1) Yn lle paragraff (6) o erthygl 19(**1**), rhodder—

"(6) Paragraph (7) applies to—

(a) plants of *Castanea* Mill., *Fraxinus* L., *Pinus* L., *Platanus* L., *Quercus* L. or *Ulmus* L. intended for planting, which have been grown or are suspected to have been grown in another member State; or

(b) plants of *Castanea* Mill., *Pinus* L., *Platanus* L., *Quercus* L. or *Ulmus* L. intended for planting, which have been grown or are suspected to have been grown in Switzerland and to which the requirements of article 6 do not apply."
.

(2) Yn lle paragraff (8) o erthygl 19(**2**), rhodder—

"(8) The matters are—

(a) the intended date of introduction of the plants;

(b) their intended destination;

(c) the quantity of the plants;

(d) their genus and species;

(e) the producer's identification number; and

(f) the country from which they have been, or are to be, consigned.".

***Diabrotica virgifera virgifera*** **Le Conte**

**4.**—(1) Hepgorer Rhan 7A(**3**) (parthau rheoli at ddibenion iechyd planhigion).

(2) Yn Rhan B (plâu planhigion y gwyddys eu bod yn digwydd yn yr Undeb Ewropeaidd) o Atodlen 1(**4**), hepgorer eitem 1a o dan y pennawd "Insects, mites and nematodes".

---

(**1**) Mewnosodwyd erthygl 19(6) gan O.S. 2013/2939 (Cy. 287), erthygl 2(3) a'i diwygio gan O.S. 2014/521 (Cy. 62), erthygl 7.

(**2**) Mewnosodwyd erthygl 19(8) gan O.S. 2013/2939 (Cy. 287), erthygl 2(3).

(**3**) Mewnosodwyd Rhan 7A gan O.S. 2008/2781 (Cy. 248), erthygl 2(5).

(**4**) Diwygiwyd Rhan B o Atodlen 1 gan O.S. 2011/1043, erthygl 9(1). Mewnosodwyd eitem 1a gan O.S. 2009/1376 (Cy. 137), erthygl 2(4). Ceir diwygiadau eraill i Ran B o Atodlen 1, ond nid yw'r un yn berthnasol.

*Alun Davies*
Y Gweinidog Adnoddau Naturiol a Bwyd, un o Weinidogion Cymru

6 Mai 2014